Cerameg

Mae Oriel Gelf Glynn Vivian yn enwog am ei chasgliad o grochenwaith a phorslen Abertawe.

Mae'r oriel hefyd yn cynnwys llawer o enghreifftiau gwreiddiol o grochenwaith a phorslen o Gymru, Lloegr, Ewrop a'r Dwyrain Pell a brynwyd gan Richard Glynn Vivian ac sydd erbyn hyn yn graidd casgliad llawer mwy sylweddol.

Yn y llun mawr gwelir *Y Cariadon Tymhestlog*, 1760, gan Franz Anton Bustelli (1754-63). Porslen past caled Nymphenburg, uchder 14.4. cm.

Erbyn heddiw, ystyrir mai Franz Anton Bustelli yw'r prif artist porslen rococo. Mewn llai na 9 mlynedd yn Nymphenburg, creodd tua 150 o fodelau, gan gynnwys ei ffigyrau byd-enwog o'r Commedia dell'Arte.

Mae'r gweithiau isod yn gynnyrch Thomas Rothwell (1740-1897) *Plât y Llong Betsey*, 1800, priddlestr argraffedig Crochendy Cambrian, Abertawe, diamedr 24.7 cm a Thomas Baxter (1782-1821) *Cwpan Jwbal*, c. 1814-1817, porslen Crochendy Cambrian, Abertawe 8.4 x 8.4 cm.

Thomas Rothwell (1740-1897) The Betsey Ship Plate, 1800

Thomas Baxter (1782-1821) The Jubal Cup, c. 1814-1817